



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru (SASW)

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2016

Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru (SASW)

Cynulleidfa

Cynghorau Sgiliau'r Sector, cyrff sy'n gosod safonau, cyflogwyr, undebau llafur, darparwyr dysgu a sefydliadau dyfarnu.

Trosolwg

Mae'r SASW yn pennu'r gofynion statudol y mae'n rhaid i fframweithiau prentisiaethau eu bodloni. Mae fframweithiau prentisiaethau yn helpu i ddarparu rhaglenni prentisiaeth o safon uchel sy'n rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar unigolion er mwyn dilyn gyrfaoedd llwyddiannus, a darparu'r gweithlu dawnus sydd ei angen ar gyflogwyr i helpu iddynt gystadlu a thyfu. Mae'r Canllawiau Diweddaraf ar gyfer awdurdodau sy'n cyhoeddi wedi eu cyhoeddi fel dogfen ar wahân. Mae'r fersiwn hon o'r SASW yn diwygio'r fersiwn a gyhoeddwyd ym mis Mai 2013.

Camau i'w cymryd

O fis Hydref 2016 dylai'r fersiwn hon o'r SASW gael ei defnyddio wrth baratoi neu addasu dogfennau y fframwaith prentisiaethau.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Simon Phelps

Yr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau

Yr Adran Addysg a Sgiliau

Llywodraeth Cymru

Tŷ Afon

Bedwas Rd

Bedwas

CF83 8WT

e-bost: DfES-ApprenticeshipUnit@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael yn electronig yn unig ac mae'n bosib ei gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ar <http://gov.wales/topics/educationandskills/skillsandtraining/apprenticeships/providers/?skip=1&lang=cy>

Dogfennau cysylltiedig

Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru (SASW) (2013); Canllaw Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru (SASW) (2016).

Cynnwys

Pennu Safonau Prentisiaethau i Gymru (SASW)	1
Cyflwyniad	2
Fframweithiau Prentisiaeth	2
Cymwysterau – Cymhwysedd a Gwybodaeth	3
Gofynion Galwedigaethol Ychwanegol	6
Fframweithiau Prentisiaeth Sylfaen	7
Fframweithiau Prentisiaeth	10
Fframweithiau Prentisiaeth Uwch	12

Pennu Safonau Prentisiaethau i Gymru - Gofynion Statudol (fel y'u haddaswyd)

Cyflwyniad

1. Mae *Pennu Safonau Prentisiaethau i Gymru (SASW)* yn nodi'r gofynion sylfaenol i'w cynnwys mewn fframwaith prentisiaeth cydnabyddedig i Gymru. Mae cydymffurfio â'r SASW yn un o ofynion statudol Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009, ac mae'r fersiwn hon yn ymgorffori addasiadau a wnaed i'r SASW gwreiddiol a gyhoeddwyd ym mis Mai 2013.
 - Mae'n ymgorffori addasiadau er mwyn caniatáu cymwysterau "procsi" fel dewis amgen cydnabyddedig yn lle Sgiliau Hanfodol fel y'u manylir o dan bob lefel fframwaith prentisiaeth. Mae SASW wedi cael ei addasu hefyd er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd wrth sicrhau cymhwysedd galwedigaethol drwy alluogi dysgu i gael ei ategu gan Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) lle y maent yn bodoli, neu safonau ar gyfer y diwydiant cyfan neu safonau proffesiynol os nad ydynt yn bodoli. Yr addasiad terfynol i SASW yw'r un i Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogwyr (ERR) nad ydynt yn orfodol mwyach yn fframweithiau SASW. Gwnaed newidiadau canlyniadol eraill hefyd yn ogystal â rhywfaint o ad-drefnu.
 - Mae Canllawiau Cyfredol i awdurdodau cyhoeddi Cymru hefyd yn cael eu cyhoeddi mewn dogfen ar wahân. Rhaid i awdurdodau cyhoeddi Cymru ystyried y Canllawiau cyfredol hyn wrth ddod i benderfyniad ynghylch p'un a yw cyflwyniad fframwaith yn cydymffurfio â SASW.
 - Gwnaed yr addasiadau i SASW drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

Cyfeirnod Adran

Pob Fframwaith Prentisiaeth

2. Rhaid i bob fframwaith prentisiaeth nodi ei lefel gan ddefnyddio'r disgrifyddion lefel cenedlaethol a ddisgrifir yn y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau ('FfCChC'). Rhaid i fframwaith fod ar Lefel 2 er mwyn bod yn gymwys fel Prentisiaeth Sylfaen, ar Lefel 3 i fod yn gymwys fel Prentisiaeth ac ar Lefel rhwng 4 a 7 i fod yn gymwys fel Prentisiaeth Uwch.	Adran 31(2)(a)
3. Rhaid i fframwaith prentisiaeth gynnwys Cod Galwedigaethol Safonol dau ddigid i nodi'r sector y mae'n ymwneud ag ef. Ni chaniateir fframweithiau a nodir gan yr un cod SOC dau ddigid ('fframweithiau dyblyg')	Adran 31(2)(a)
4. Rhaid i lefel fframwaith nodi, fel un o ofynion tystysgrif Cymru, gyfanswm y dysgu ar ffurf credydau FfCChC. Rhaid i nifer y credydau adlewyrchu'r dysgu sy'n ofynnol er mwyn cyflawni cymhwysedd llawn yn y sgil,	Adran 31(2)(a)

masnach neu alwedigaeth y mae'n ymwneud ag ef/hi.	
5. Dylai cyfrifo credyd ddeillio o'r diffiniad a geir yn y FfCCChC a rhaid iddo fod yn gyson â chyfanswm yr oriau dysgu cyhoeddiedig a roddir ar gyfer pob cymhwyster gan y cyrff neu sefydliad(au) dyfarnu perthnasol.	Adran 31(2)(a)
6. Rhaid i fframwaith fod yn 37 o gredydau o leiaf ond lle y bo'n briodol, gall fod yn fwy na hyn; mewn sawl achos bydd fframweithiau gryn dipyn yn fwy na 37 o gredydau. Ni ddylai fframwaith fod mor gul fel nad yw ond yn berthnasol i weithle penodol lle yr enillwyd y brentisiaeth.	Adran 31(2)(a)

Cymwysterau – Cymhwysedd a Gwybodaeth	
7. Rhaid i'r fframwaith nodi'r cymhwyster/cymwysterau sy'n dangos y cymwyseddau galwedigaethol perthnasol fel y 'cymhwyster cymwyseddau galwedigaethol' a'r wybodaeth alwedigaethol fel y 'cymhwyster gwybodaeth dechnegol' mewn perthynas â'r fframwaith.	Adran 31(2)(c)(ii) a (iii)
8. Rhaid i'r cymhwyster/cymwysterau cymwyseddau galwedigaethol a gwybodaeth dechnegol fod yn un o'r canlynol: a. un a gynigir gan gorff dyfarnu neu sefydliad dyfarnu a gydnabyddir gan reoleiddiwr cymwysterau yn y DU neu gan Sefydliad Addysg Bellach neu Sefydliad Addysg Uwch a reoleiddir gan Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (neu unrhyw olynydd); neu b. yn un a gynigir gan gorff proffesiynol cydnabyddiedig ar yr amod bod ei gyflawniad yn rhoi cymhwysedd ar gyfer cydnabyddiaeth broffesiynol. Rhaid i'r cymhwyster cymwyseddau galwedigaethol a gwybodaeth dechnegol gael ei gyflawni gan y brentisiaeth er mwyn bod yn gymwys ar gyfer tystysgrif prentisiaeth Cymru.	Adran 31(2)(a) Adran 31(2)(c)(ii)
9. Rhaid i fframwaith prentisiaeth gynnwys: a. cymhwyster cymwyseddau integredig sydd hefyd yn cynnwys y wybodaeth dechnegol berthnasol; neu b. cymhwyster cymwyseddau galwedigaethol a chymwysterau gwybodaeth dechnegol berthnasol sydd, o'u cymryd gyda'i gilydd, yn dangos y	Adran 31(2)(c)(ii)

<p>cymwyseddau galwedigaethol perthnasol a'r wybodaeth dechnegol berthnasol.</p>	
<p>10. Bydd y datblygwr fframwaith yn penderfynu ar gydbwysedd y credydau rhwng cymwyseddau galwedigaethol a chymwysterau gwybodaeth dechnegol berthnasol. Fodd bynnag, rhaid i'r fframwaith nodi:</p> <ul style="list-style-type: none"> a. o leiaf ddeg credyd a gyflawnwyd o gymhwyster ar sail cymhwysedd galwedigaethol neu elfen cymhwysedd cymhwyster integredig, sy'n benodol yn ymwneud â'r sgil, y fasnach neu'r alwedigaeth ac sy'n seiliedig ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) lle maent yn bodoli, neu safonau ar gyfer y diwydiant cyfan neu safonau proffesiynol lle nad ydynt yn bodoli ar gyfer y sector cyflogaeth y lluniwyd y fframwaith ar ei gyfer a rhaid iddo fod ar lefel sy'n adlewyrchu rôl y swydd; b. o leiaf ddeg credyd o gymhwyster gwybodaeth dechnegol neu elfen gwybodaeth o gymhwyster integredig, sy'n darparu'r wybodaeth dechnegol a'r ddealltwriaeth o'r cysyniadau damcaniaethol sy'n ymwneud yn benodol â'r sgil, y fasnach neu'r alwedigaeth i ategu cymhwysedd galwedigaethol. Rhaid i'r elfen cymhwyster gwybodaeth roi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r diwydiant a'i farchnad i'r prentis; neu c. o leiaf ddeg credyd o gymhwyster cymwyseddau cyfatebol (nad ydynt yn FfCChC) a gydnabyddir gan gorff proffesiynol ar gyfer Prentisiaeth Uwch ar Lefelau 4-7 lle mae cwblhau prentisiaeth o'r fath yn llwyddiannus yn llwybr cydnabyddedig at gofrestru proffesiynol. 	<p>Adran 31(2)(a)</p>
<p>11. Rhaid i'r rhan fwyaf o gynnwys y cymhwyster cymwyseddau galwedigaethol fod yn gallu cael ei asesu ar sail tystiolaeth a gafwyd drwy hyfforddiant yn y swydd mewn gweithle. Mae'r gofyniad hwn yn gymwys ar bob lefel o'r fframwaith, gan gynnwys unrhyw gymwysterau Addysg Uwch a nodwyd naill ai fel y cymhwyster cymwyseddau galwedigaethol neu'r cymhwyster cymwyseddau integredig.</p> <p>Rhaid i'r cynnwys dysgu gael ei gyflawni drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> a. gymhwyster ar sail cymhwysedd galwedigaethol neu elfen cymhwysedd cymhwyster integredig, rhaid iddo fod yn seiliedig ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) lle maent yn bodoli, neu safonau ar gyfer y diwydiant cyfan neu safonau proffesiynol lle nad ydynt yn bodoli ar 	<p>Adran 31(2)(b) Adran 31(2)(c)(ii)</p>

<p>gyfer y sector cyflogaeth y lluniwyd y fframwaith ar ei gyfer, rhaid iddo ymwneud yn benodol â sgil, masnach neu alwedigaeth ar y fframwaith a rhaid iddo fod ar lefel sy'n adlewyrchu rôl y swydd;</p> <p>cymhwyster gwybodaeth dechnegol neu elfen gwybodaeth o gymhwyster integredig, sy'n darparu'r wybodaeth dechnegol a'r ddealltwriaeth o'r cysyniadau damcaniaethol sy'n ymwneud yn benodol â'r sgil, y fasnach neu'r alwedigaeth i ategu cymhwysedd galwedigaethol. Rhaid i'r elfen cymhwyster gwybodaeth roi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r diwydiant a'i farchnad i'r prentis; neu</p> <p>b. y cynnwys dysgu o gymhwyster cymwyseddau cyfatebol a gydnabyddir gan gorff proffesiynol ar gyfer Prentisiaeth Uwch, lle mae cwblhau prentisiaeth o'r fath yn llwybr cydnabyddedig at gofrestru proffesiynol.</p>	
<p>12. Lle y caiff yr elfennau gwybodaeth a chymhwysedd eu cyfuno a'u cydnabod fel un cymhwyster integredig, rhaid i'r ddwy elfen gael eu nodi ar wahân a'u hasesu ar wahân.</p>	<p>Adran 31(2)(a) Adran 31(2)(c)(ii) a (iii)</p>
<p>13. Lle mae cymhwyster a geir mewn fframwaith prentisiaeth yn cyfeirio at fframwaith cenedlaethol (fel FfCChC, RQF neu SCQF), rhaid iddo gael ei enwi yn ôl Teitl, Lefel a lle y bo'n gymwys God Cyfeirio Cymhwyster.</p>	<p>Adran 31(2)(a)</p>
<p>14. Rhaid i fframwaith gael ei adolygu o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn parhau i ddiwallu anghenion y sector.</p>	<p>Adran 31(2)(a)</p>
<p>15. Rhaid i fframwaith gynnwys dyddiad ei gyhoeddi a'r dyddiad y caiff ei adolygu'n ffurfiol.</p>	<p>Adran 31(2)(a)</p>
<p>16. Rhaid i gymhwyster ar gyfer cymhwysedd galwedigaethol brofi'r gallu i gyflawni gweithgareddau yn unol â'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer yr alwedigaeth honno.</p>	<p>Adran 31(2)(a)</p>

Gofynion Galwedigaethol Ychwanegol	
17. Gall fframwaith nodi rhaglenni dysgu ychwanegol i fodloni gofynion galwedigaethol penodol. Rhaid i ddatblygwr y fframwaith ymgynghori â'r awdurdod cyhoeddi ar gyfer y sector hwnnw, cyn cynnwys unrhyw ofyniad galwedigaethol ychwanegol mewn fframwaith.	Adran 312)(a)
18. Lle caiff safonau galwedigaethol ychwanegol eu cynnwys mewn fframwaith rhaid i'r fframwaith nodi'r deilliannau dysgu i'w cyrraedd. Gall y deilliannau dysgu gael eu nodi fel cymhwyster ffurfiol neu gallant fod yn asesiad annibynnol lle na chaiff cyrhaeddiad ei fesur drwy gyfrwng cymhwyster.	Adran 31(2)(a)
19. Gall fframwaith Prentisiaeth Uwch ar Lefelau 4-7 nodi cymhwyster /cymwysterau proffesiynol ychwanegol fel y'u cydnabyddir gan y sector os ydynt yn rhoi cymhwysedd ar gyfer statws proffesiynol.	Adran 31(2)(a)

Fframweithiau Prentisiaeth Sylfaen (Lefel 2)

Cymwysterau sy'n Gysylltiedig â'r Sector	
<p>20. Rhaid i fframwaith prentisiaeth sylfaen nodi'r cymhwyster cymwyseddau galwedigaethol y mae'n rhaid i'r prentis eu cyflawni er mwyn bod yn gymwys ar gyfer tystysgrif prentisiaeth Cymru, a'r cymhwyster sy'n ofynnol er mwyn dangos cymhwysedd wrth gyflawni'r sgil, y fasnach neu'r alwedigaeth y mae'r fframwaith yn ymwneud ag ef/hi. Rhaid i'r cymhwyster cymwyseddau fod ar Lefel 2 a chael ei ategu gan Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) lle y maent yn bodoli, neu safonau ar gyfer y diwydiant cyfan neu safonau proffesiynol os nad ydynt yn bodoli.</p>	Adran 31(2)(c)(iii)
<p>21. Rhaid i brentisiaeth sylfaen nodi cymhwyster gwybodaeth dechnegol y mae'n rhaid i'r prentis ei gyflawni er mwyn bod yn gymwys ar gyfer tystysgrif prentisiaeth Cymru. Cymhwyster gwybodaeth dechnegol yw'r cymhwyster sy'n ofynnol i ddangos bod y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth dechnegol o'r cysyniadau damcaniaethol a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r diwydiant a'i farchnad yn berthnasol i'r sgil, y fasnach neu'r alwedigaeth y mae'r fframwaith yn ymwneud ag ef/hi.</p>	Adran 31(2)(c)(ii)
<p>22. Rhaid i fframwaith prentisiaeth sylfaen nodi un o'r canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> cymhwyster cymwyseddau galwedigaethol ar Lefel 2 a chymhwyster gwybodaeth dechnegol ar wahân; neu cymhwyster integredig ar Lefel 2 sy'n cyfuno cymwyseddau galwedigaethol ac elfennau gwybodaeth dechnegol lle caiff pob elfen ei hasesu ar wahân. 	Adran 31(2)(a) Adran 31(2)(c)(iii)
Sgiliau Hanfodol	
<p>23. Rhaid i fframwaith prentisiaeth sylfaen nodi fel un o ofynion tystysgrif Cymru lefelau cyflawniad disgwylidig y Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu a'r Sgiliau Hanfodol mewn Cymhwyso Rhif, a bydd y cymwysterau hyn ar Lefel 1 o leiaf neu'r lefel berthnasol a bennir gan y diwydiant.</p>	Adran 31(2)(c)(i)
<p>24. Lle y nodir cymwysterau Sgiliau Hanfodol mewn fframwaith prentisiaeth sylfaen, rhaid i'r fframwaith prentisiaeth nodi fel un o ofynion tystysgrif Cymru, y derbynnir un o'r cymwysterau procsi cydnabyddedig</p>	Adran 31(2)(c)(i)

<p>canlynol ar gyfer Cyfathrebu:</p> <ol style="list-style-type: none"> Cymhwyster TGAU neu TGAU Ryngwladol mewn Saesneg iaith neu lenyddiaeth i radd G o leiaf (Lefel 1 gyfatebol); neu Cymhwyster Lefel O mewn Saesneg iaith neu lenyddiaeth i radd E o leiaf; neu Cymhwyster Safon Uwch/UG mewn Saesneg iaith neu lenyddiaeth i radd E o leiaf; neu Lefel 4 SCQF - Sgiliau Craidd Cyfathrebu (Cyfathrebu llafar a chyfathrebu ysgrifenedig); neu Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA) Cenedlaethol 4 Saesneg; neu Sgiliau Gweithredol neu Sgiliau Allweddol - cymwysterau llythrennedd mewn Saesneg ar yr amod bod y cymhwyster/cymwysterau procsi a enillwyd ar Lefel 1 neu uwch. <p>Ac ar gyfer Cymhwyso Rhif:</p> <ol style="list-style-type: none"> Cymhwyster TGAU neu TGAU Ryngwladol mewn Mathemateg i radd G o leiaf (Lefel 1 gyfatebol); neu Cymhwyster Lefel O mewn Mathemateg i radd E o leiaf; neu Cymhwyster Safon Uwch/UG mewn Mathemateg i radd E o leiaf; neu SCQF Lefel 4 - Sgil Craidd Rhifedd (Gwybodaeth Graffigol a defnyddio rhif); neu SQA Cenedlaethol 4 Mathemateg ; neu Sgiliau Gweithredol neu Sgiliau Allweddol - cymwysterau rhifedd mewn Mathemateg ar yr amod bod y cymhwyster/cymwysterau procsi a enillwyd ar Lefel 1 neu uwch. 	
<p>25. Gall fframwaith prentisiaeth sylfaen nodi fel un o ofynion tystysgrif Cymru gymhwyster mewn Sgiliau Hanfodol mewn Llythrennedd Digidol i Lefel 1 o leiaf, oni fydd Llythrennedd Digidol yn amherthnasol i berfformiad effeithiol yn y sgil, masnach neu alwedigaeth y mae'r fframwaith yn ymwneud ag ef/hi.</p>	<p>Adran 31(2)(c)(i)</p>

Hyfforddiant mewn swydd a hyfforddiant y tu allan i'r gwaith	
<p>26. Rhaid i fframwaith prentisiaeth sylfaen nodi cyfanswm yr oriau dysgu y mae'n rhaid i brentis eu cael i gwblhau'r fframwaith. Mae oriau dysgu yn ymwneud â'r hyfforddiant a gynllunnir i gyflawni deilliannau clir a phenodol sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawniad llwyddiannus y fframwaith prentisiaeth.</p>	<p>Adran 31(2)(b)</p>
<p>27. Rhaid i fframwaith prentisiaeth sylfaen nodi cyfanswm yr</p>	<p>Adran 31(2)(b)</p>

oriau dysgu y tu allan i'r gwaith y mae'n rhaid i brentis eu cael i gwblhau'r fframwaith.	
28. Rhaid i fframwaith prentisiaeth sylfaen nodi cyfanswm yr oriau dysgu yn y swydd y mae'n rhaid i brentis eu cael i gwblhau'r fframwaith.	Adran 31(2)(b)
29. Rhaid i'r cydbwysedd oriau rhwng hyfforddiant mewn swydd a hyfforddiant y tu allan i'r gwaith ymwneud â chyfran yr asesiad yn y gweithle sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r cymhwyster cymwyseddau.	Adran 31(2)(b)
30. Rhaid i fframwaith prentisiaeth sylfaen nodi bod yn rhaid i'r hyfforddiant mewn swydd neu y tu allan i'r gwaith fod wedi cael ei dderbyn naill ai: <ul style="list-style-type: none"> a. tra'n gweithio o dan gytundeb prentisiaeth; neu b. yn ystod cyfnod cymhwyso cyn gweithio o dan gytundeb prentisiaeth a ddaeth i ben ar ddyddiad gwneud cais am dystysgrif prentisiaeth. Argymhellir cyfnod cymhwyso o bum mlynedd, ond er mwyn diwallu anghenion eu sector, gall fframweithiau bennu amserlen fyrrach neu hirach na phum mlynedd fel y cyfnod cymhwyso. 	Adran 31(2)(b)

Fframweithiau Prentisiaeth (Lefel 3)

Cymwysterau sy'n Gysylltiedig â'r Sector	
<p>31. Rhaid i fframwaith prentisiaeth ar Lefel 3 nodi'r cymhwyster cymwyseddau galwedigaethol y mae'n rhaid i'r prentis eu cyflawni er mwyn bod yn gymwys ar gyfer tystysgrif prentisiaeth Cymru, a'r cymhwyster sy'n ofynnol er mwyn dangos cymhwysedd wrth gyflawni'r sgil, y fasnach neu'r alwedigaeth y mae'r fframwaith yn ymwneud ag ef/hi. Rhaid i'r cymhwyster cymwyseddau fod ar Lefel 3; wedi'i ategu gan Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol lle y maent yn bodoli, neu safonau ar gyfer y diwydiant cyfan neu safonau proffesiynol os nad ydynt yn bodoli.</p>	Adran 31(2)(c)(iii)
<p>32. Rhaid i brentisiaeth sylfaen ar Lefel 3 nodi cymhwyster gwybodaeth dechnegol y mae'n rhaid i'r prentis ei gyflawni er mwyn bod yn gymwys ar gyfer tystysgrif prentisiaeth Cymru. Cymhwyster gwybodaeth dechnegol yw'r cymhwyster sy'n ofynnol i ddangos bod y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth dechnegol o'r cysyniadau damcaniaethol a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r diwydiant a'i farchnad yn berthnasol i'r sgil, y fasnach neu'r alwedigaeth y mae'r fframwaith yn ymwneud ag ef/hi.</p>	Adran 31(2)(c)(ii)
<p>33. Rhaid i fframwaith prentisiaeth nodi naill ai:</p> <ul style="list-style-type: none"> a. cymhwyster cymwyseddau galwedigaethol ar Lefel 3 a chymhwyster gwybodaeth dechnegol ar wahân; neu b. cymhwyster integredig ar Lefel 3 sy'n cyfuno cymwyseddau galwedigaethol ac elfennau gwybodaeth dechnegol lle caiff pob elfen ei hasesu ar wahân. 	Adran 31(2)(a) Adran 31(2)(c)(iii)

Sgiliau Hanfodol	
<p>34. Rhaid i fframwaith prentisiaeth nodi fel un o ofynion tystysgrif Cymru lefelau cyflawniad disgwylidiedig y Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu a'r Sgiliau Hanfodol mewn Cymhwyso Rhif, a bydd y cymwysterau hyn ar Lefel 2 o leiaf neu'r lefel berthnasol a bennir gan y diwydiant.</p>	Adran 31(2)(c)(i)
<p>35. Lle y nodir cymwysterau Sgiliau Hanfodol mewn fframwaith prentisiaeth, rhaid i'r fframwaith prentisiaeth nodi fel un o ofynion tystysgrif Cymru, y derbynnir un o'r cymwysterau procsi cydnabyddedig canlynol ar gyfer Cyfathrebu:</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Cymhwyster TGAU neu TGAU Ryngwladol mewn 	Adran 31(2)(c)(i)

<p>Saesneg iaith neu lenyddiaeth i radd C o leiaf (Lefel 2 gyfatebol); neu</p> <ul style="list-style-type: none"> b. Cymhwyster Lefel O mewn Saesneg iaith neu lenyddiaeth i radd C o leiaf; neu c. Cymhwyster Safon Uwch/UG mewn Saesneg iaith neu lenyddiaeth i radd E o leiaf; neu d. Lefel 5 SCQF - Sgiliau Craidd Cyfathrebu (Cyfathrebu llafar a chyfathrebu ysgrifenedig); neu e. SQA Cenedlaethol 5 Saesneg; neu f. Sgiliau Gweithredol neu Sgiliau Allweddol - cymwysterau llythrennedd mewn Saesneg ar yr amod bod y cymhwyster/cymwysterau procsi a enillwyd ar Lefel 2 neu uwch. <p>Ac ar gyfer Cymhwyso Rhif:</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Cymhwyster TGAU neu TGAU Ryngwladol mewn Mathemateg i radd G o leiaf (Lefel 2 gyfatebol); neu b. Cymhwyster Lefel O mewn Mathemateg i radd C o leiaf; neu c. Cymhwyster Safon Uwch/UG mewn Mathemateg i radd E o leiaf; neu d. SCQF Lefel 5 - Sgil Craidd Rhifedd (Gwybodaeth Graffigol a defnyddio rhif); neu e. SQA Cenedlaethol 5 Mathemateg ; neu f. Sgiliau Gweithredol neu Sgiliau Allweddol - cymwysterau rhifedd mewn Mathemateg ar yr amod bod y cymhwyster/cymwysterau procsi a enillwyd ar Lefel 2 neu uwch. 	
<p>36. Gall fframwaith prentisiaeth nodi fel un o ofynion tystysgrif Cymru gymhwyster mewn Sgiliau Hanfodol mewn Llythrennedd Digidol i Lefel 2 o leiaf, oni fydd Llythrennedd Digidol yn amherthnasol i berfformiad effeithiol yn y sgil, masnach neu alwedigaeth y mae'r fframwaith yn ymwneud ag ef/hi.</p>	<p>Adran 31(2)(c)(i)</p>

Hyfforddiant mewn swydd a hyfforddiant y tu allan i'r gwaith

<p>37. Mae'r gofynion fel y maent ar gyfer fframwaith prentisiaeth sylfaen ar Lefel 2.</p>	<p>Adran 31(2)(b)</p>
--	-----------------------

Fframweithiau Prentisiaeth Uwch (Lefelau 4 - 7)

Cymwysterau sy'n Gysylltiedig â'r Sector	
38. Rhaid i fframwaith prentisiaeth sylfaen nodi'r cymhwyster cymwyseddau galwedigaethol y mae'n rhaid i'r prentis eu cyflawni er mwyn bod yn gymwys ar gyfer tystysgrif prentisiaeth Cymru, a'r cymhwyster sy'n ofynnol er mwyn dangos cymhwysedd wrth gyflawni'r sgil, y fasnach neu'r alwedigaeth y mae'r fframwaith yn ymwneud ag ef/hi. Rhaid i'r cymhwyster cymwyseddau fod ar lefel y fframwaith a nodir a chael ei ategu gan Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) lle y maent yn bodoli, neu safonau ar gyfer y diwydiant cyfan neu safonau proffesiynol os nad ydynt yn bodoli.	Adran 31(2)(c)(iii)
39. Rhaid i brentisiaeth sylfaen uwch nodi cymhwyster gwybodaeth dechnegol y mae'n rhaid i'r prentis ei gyflawni er mwyn bod yn gymwys ar gyfer tystysgrif prentisiaeth Cymru. Cymhwyster gwybodaeth dechnegol yw'r cymhwyster sy'n ofynnol i ddangos bod y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth dechnegol o'r cysyniadau damcaniaethol a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r diwydiant a'i farchnad yn berthnasol i'r sgil, y fasnach neu'r alwedigaeth y mae'r fframwaith yn ymwneud ag ef/hi.	Adran 31(2)(c)(ii)
40. Rhaid i fframwaith prentisiaeth uwch naill ai nodi: <ul style="list-style-type: none"> a. cymhwyster cymwyseddau galwedigaethol a chymhwyster gwybodaeth dechnegol ar wahân ar Lefel 4 o leiaf; neu b. cymhwyster integredig ar Lefel 4 o leiaf sy'n cyfuno cymwyseddau galwedigaethol ac elfennau gwybodaeth dechnegol lle caiff pob elfen ei hasesu ar wahân; neu c. nodi HNC, HND, Gradd Sylfaen neu Radd fel y cymhwyster gwybodaeth dechnegol berthnasol; neu d. nodi cymhwyster gwybodaeth dechnegol berthnasol a gydnabyddir gan gorff proffesiynol sy'n cynrychioli'r maes galwedigaethol. 	Adran 31(2)(a) Adran 31(2)(c)(iii)
Sgiliau Hanfodol	
41. Mae'r gofynion fel y maent ar gyfer fframwaith prentisiaeth ar Lefel 3.	Adran 31(2) (c)(i)
Hyfforddiant mewn swydd a hyfforddiant y tu allan i'r gwaith	
42. Mae'r gofynion fel y maent ar gyfer fframwaith prentisiaeth sylfaen ar Lefel 2.	Adran 31(2)(b)